**Eitem Agenda Rhif 7**

**Yn Adrodd i:** **Y Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **20 Mawrth 2012**

**Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd D A J Thomas**

**Awdur yr Adroddiad:** **Mark Dixon**

**Teitl:** **Cynllun Tref Prestatyn**

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad ynghylch cynllun tref sydd wedi'i baratoi ar gyfer Prestatyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r Cyngor Sir wedi gwahodd y cynghorau tref, a'r gymuned fusnes a sectorau gwirfoddol ym mhob un o'i brif drefi, i ymuno gyda'i gilydd i ddatblygu Cynlluniau Tref. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau cefnogaeth i Gynllun Tref Prestatyn ar ran y Cyngor Sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cefnogi'r cynllun tref arfaethedig i Brestatyn.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r cynllun tref yn dangos y sefyllfa bresennol yn y dref, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol y bydd yn eu hwynebu yn ystod y ddegawd nesaf, yr weledigaeth a fydd yn rhoi dyfodol cynaliadwy i'r dref a'r gwaith realistig a chyraeddadwy a fydd yn gallu gwireddu'r weledigaeth.

Mae cynllun tref arfaethedig i Brestatyn ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd paratoi cynlluniau trefi o gymorth i'r Cyngor Sir gyrraedd ei amcan strategol o "ddod â'r Cyngor yn agosach at y gymuned" a chyrraedd canlyniadau ei flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer adfywio.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau'n codi'n uniongyrchol o gefnogi'r cynllun tref arfaethedig a does dim canlyniadau ychwaith i wasanaethau eraill. Bydd angen ystyried unrhyw waith nad yw eisoes wedi'i gytuno trwy'r prosesau cynllunio statudol neu fusnes perthnasol ar yr adeg briodol.

## 7. Pa ymgynghori a wnaed?

Cynhaliwyd gweithdy i aelodau ar 14 Mawrth 2011 ynghylch diben a strwythur y cynlluniau tref ac roedd hefyd eitem agenda ym mriffiadau'r Cabinet ar 5 Ebrill 2011, yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 19 Mai 2011 ac mewn Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 27 Hydref 2011.

Estynnwyd gwahoddiad i bob Pennaeth Gwasanaeth gymryd rhan ar bob cam o ddatblygu'r cynllun drafft. Cafodd y cynllun ei ystyried mewn gweithdy ar y cyd i Grŵp Aelodau Ardal Prestatyn ac aelodau o Gyngor Tref Prestatyn, a thrafodwyd gyda Fforwm Busnes a Chymuned Prestatyn, Cymdeithas Fusnes Prestatyn a'r Cylch a myfyrwyr Ysgol Uwchradd Prestatyn. Mae hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y cyngor ac yn siop un stop y dref. Cyfeirir at unrhyw sylwadau ychwanegol a dderbynnir yn y cyfarfod.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd yn rhaid ystyried a chymeradwyo goblygiadau costau ac ariannu, yn unigol, pob eitem o waith nad yw eisoes wedi'i gytuno, sy'n codi o'r cynllun.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risg o beidio â mabwysiadu cynlluniau tref cyn yr etholiad Cyngor Sir nesaf wedi'i leihau drwy eu cynnwys ym mlaen rhaglen waith cyfarfodydd y Cabinet yn arwain at fis Mawrth 2012.

## 10. Yr Hawl i Benderfynu

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r hawl i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.